17 Gorffennaf 2024

# Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd

**Pwrpas: I'w gymeradwyo**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

## 2. Casgliad Cyffredinol

2.1 Mae'r pwyllgor wedi adolygu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r pwyllgor yn ei alluogi i gadarnhau bod y datganiadau a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu yn Natganiad Llywodraethu 2023/24 ynghylch llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol yn gywir ac yn amlwg.

### Llywodraethu

2.2 Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad cyflawn o'r holl fframweithiau llywodraethu yn ystod 2023/24 gan ystyried arfer gorau a chyngor ARC.

### Rheoli risg

2.3 Cwblhaodd y Bwrdd adolygiad trylwyr o'i bolisïau a'i arferion rheoli risg yn ystod 2023/24 gan ystyried cyngor ARC. Ystyriodd a heriodd y pwyllgor y gofrestr risg yn rheolaidd.

### Barn Archwilio Mewnol

2.4 Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiad ar gyfer 2023/24: 'Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol'. Dyma'r ail lefel sicrwydd uchaf allan o bedwar.

### Barn Archwilio Allanol

2.5 Derbyniodd PSA farn ddiamod gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ynghylch yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023/24.

## 3. Tystiolaeth ategol

3.1 Ni adroddwyd am unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll i'r pwyllgor yn y flwyddyn 2023/24.

3.2 Mae'r pwyllgor yn parhau i adolygu a herio'r gofrestr risg yn rheolaidd cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w thrafod.

3.3 Adolygodd y pwyllgor y fframwaith llywodraethu diwygiedig (Mai 24) cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd (Gorffennaf) i'w gymeradwyo.

## 4. Archwilio mewnol

4.1 RSM oedd ein harchwilwyr mewnol ar gyfer 2023/24.

4.2 Roedd eu gwaith archwilio mewnol eleni yn canolbwyntio ar:

- Rheoli Risg
- Rheoli Prosiectau
- Penodi Aelodau'r Cyngor
- Egwyddorion Busnes

***Rheoli Risg***

4.3 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaed tri argymhelliad blaenoriaeth ganolig. Roedd un yn ymwneud â hyfforddiant, roedd un yn ymwneud â chofnodi perchnogion camau lliniaru yn y gofrestr risg a'r trydydd oedd i'r Bwrdd ddiweddaru eu harchwaeth risg ar ôl ychwanegu aelodau newydd. Bydd yr holl argymhellion wedi'u rhoi ar waith erbyn 30 Mehefin 2024.

***Rheoli Prosiectau***

4.4 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaethpwyd un argymhelliad blaenoriaeth Ganolig a dau argymhelliad blaenoriaeth Isel ynghylch gwella dogfennaeth fethodoleg y prosiect er mwyn cofnodi monitro cerrig milltir yn well a sut i gynnal trosolwg o brosiectau a gontractir yn allanol. Mae'r argymhellion hyn eisoes wedi'u rhoi ar waith.

***Penodi Aelodau'r Cyngor***

4.5 Derbyniodd yr adolygiad hwn Sicrwydd Rhesymol. Gwnaethpwyd un argymhelliad blaenoriaeth Ganolig mewn perthynas â chynhyrchu dogfen weithdrefnol i amlinellu'n glir y prosesau i'w dilyn. Mae hyn wedi'i gwblhau

***Egwyddorion Busnes***

4.6 Derbyniodd yr adolygiad Sicrwydd Sylweddol ac ni wnaed unrhyw argymhellion.

## 5. Rheoli a rheolaeth risg

5.1 Mae rheoli risg yn hanfodol i'r Awdurdod gyflawni ei amcanion.

5.2 Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r gofrestr risg bob chwarter. Ystyrir y gofrestr wedi'i diweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac wedi hynny gan y Bwrdd. Mae risgiau'n cael eu hychwanegu, eu diweddaru neu eu dileu y tu allan i'r broses hon pan fo angen.

5.3 Roedd y risgiau mwyaf arwyddocaol ar gyfer 2023/24 yn ymwneud ag

- Ôl-groniadau Addasrwydd i Ymarfer, yn arbennig y gallent beryglu effeithiolrwydd rheoleiddiol ac felly leihau diogelwch y cyhoedd
- Diwygio rheoleiddio ac yn arbennig y risg y caiff ei weithredu'n wael, gan leihau effeithiolrwydd rheoleiddio wedi hynny.
- Dulliau anghyson o gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol, a'r risg y gallai hynny arwain at unigolyn sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion yn gallu cofrestru.

5.4 Cymerwyd camau priodol i liniaru'r risgiau priodol.

5.5 Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn datblygu ac yn cynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd yn ei dro yn rhoi cyngor strategol i'r Bwrdd, a gyda hwy mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod trefniadau'r PSA yn effeithiol.

5.6 Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu ar reolaethau ariannol, y mae'r cyfrifoldebau a'r awdurdod mewn perthynas â hwy wedi'u dirprwyo i'r Tîm Arwain
- Prosesau cynllunio busnes sy'n nodi amcanion y PSA wedi'u hategu gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad ynghyd ag adrodd ar amrywiant, cynllunio senarios ac ail-ragamcan
- Y fframwaith sicrwydd.

## 6. Diogelwch Gwybodaeth

6.1 Cynhaliodd y pwyllgor ei asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth ym mis Mai 2024 a chyfrannodd hyn at y Datganiad Llywodraethu a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## 7. Aelodaeth

7.1 Mae aelodaeth y pwyllgor fel a ganlyn:

- Cadeirydd – Frances Done
- Aelodau – Nick Simkins, Tom Frawley ac Amrat Khorana (rhan o'r flwyddyn).

## 8. Cyfarfodydd

8.1 Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith rhwng 01 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

8.2 Roedd presenoldeb fel a ganlyn:

| Aelod pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Frances Done | 4/4 |
| Nick Simkins | 4/4 |
| Tom Frawley | 4/4 |
| Amrat Khorana | 2/2 |

**9. Crynodeb**

9.1 Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

9.2 I gloi, hoffwn ddiolch i'r tîm gweithredol am eu cefnogaeth i'r pwyllgor ac i mi fel Cadeirydd.

Frances Done
Cadeirydd

Pwyllgor Archwilio a Risg